

# Bwydlun i adar!

## Beth sydd ei angen arnoch

- Darnau o bren neu gerdyn
- Pensiliau
- Hen frwsys paent
- Lard neu saim llysiâu wedi ei feddalu
- Hadau adar mân
- Ychydig o briciau bach tenau
- Siswrn
- Tyllwr a llinyn

## Beth i'w wneud

- 1) Tynnwch lun syml ar y cerdyn/ pren.
- 2) Gwnewch ddau dwll ym mhen uchaf y llun a thynnu'r llinyn trwy'r tyllau.
- 3) Cynheswch y lard/saim nes bydd yn ddigon meddal i'w baentio dros y llun. Gwnewch yn siŵr fod gennych ddigon o amser a gofynnwch i oedolyn eich helpu i wneud hyn.
- 4) Gwasgarwch yr hadau mân dros y lard/saim ac ysgwyd y rhai sydd heb lynu i ffwrdd. Efallai y bydd angen ichi wneud hyn sawl gwaith gan y bydd y lard/saim yn sychu'n gyflym.
- 5) Pan fydd wedi sychu, gwnewch dwll neu ddau yn y cerdyn â siswrn a gwthio'r priciau trwyddyn nhw i wneud clwydi i adar.
- 6) Rhowch eich bwydlun i hongian y tu allan ar ddiwrnod braf i weld a fydd yr adar lleol yn hoffi eich gwaith!
- 7) Ni ddylech aildefnyddio'r bwydlun a bydd angen cael gwared arno'n ofalus ar ôl i'r adar ei fwyta.

